# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 25 Chwefror 2021

Amser: 09.15 - 12.13

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/11111

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Lynne Neagle AS (Cadeirydd)<br>Dawn Bowden AS<br>Hefin David AS<br>Suzy Davies AS<br>Siân Gwenllian AS<br>Laura Anne Jones AS |
| Tystion: | Luke Sibieta, Cymrawd Ymchwil yn y Sefydliad Astudiaethau Cyllid a'r Sefydliad Polisi Addysg<br>Yr Athro Chris Taylor, Athro Addysg a Chyfarwyddwr Academaidd y Parc Ymchwil y Gwyddorau Cymdeithasol (SPARK) - Prifysgol Caerdydd<br>Gareth Evans, Cyfarwyddwr Polisi Addysg, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant<br>Yr Athro Dylan Jones, Dirprwy Is-Ganghellor a Deon Gweithredol yr Athrofa, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant |
| Staff y Pwyllgor: | Llinos Madeley (Clerc) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

| | |
|---|---|
| | Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc)<br>Sian Thomas (Ymchwilydd)<br>Phil Boshier (Ymchwilydd)<br>Catherine McKeag (Rheolwr Ymgysylltu â Dinasyddion) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod rhithwir y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

1.2 Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd, ond bod y cyfarfod yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv.

1.3 Dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi cytuno, pe bai hi'n gadael y cyfarfod am unrhyw reswm, y byddai Dawn Bowden AS yn Gadeirydd Dros Dro yn unol â Rheol Sefydlog 17.22.

1.4 Ni chafwyd ymddiheuriadau. Nododd y Cadeirydd y byddai angen i Suzy Davies AS adael y cyfarfod am 11am.

## 2 COVID-19: addysg statudol

2.1 O dan Reol Sefydlog 17.24A, datganodd Hefin David AS fod gan ei ferch Anghenion Dysgu Ychwanegol.

2.2 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Luke Sibieta a'r Athro Chris Taylor ar faterion yn ymwneud ag effaith COVID-19 ar blant a phobl ifanc.

2.3 Cytunodd Luke Sibieta y byddai'n rhoi unrhyw dystiolaeth ystadegol i'r Pwyllgor sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â phresenoldeb plant sy'n agored i niwed yn yr ysgol, gan gynnwys y rheini ag anghenion dysgu ychwanegol yn ystod y cyfnodau o gyfyngiadau symud, ac a oedd profiadau wedi amrywio ledled Cymru.

## 3 COVID-19: addysg statudol

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Gareth Evans a’r Athro Dylan Jones ar faterion yn ymwneud ag effaith COVID-19 ar blant a phobl ifanc.

## 4 Papurau i’w nodi

4.1 Cafodd y papurau eu nodi.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 COVID-19: Trafod y dystiolaeth

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a glywyd yn ystod y sesiynau blaenorol.

## 7 COVID-19: y diweddaraf ynghylch ymgysylltu â myfyrwyr prifysgol

7.1 Cafodd y Pwyllgor gyflwyniad ar ganfyddiadau'r grwpiau ffocws rhithwir a gynhaliwyd gyda myfyrwyr. Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r wybodaeth yn cael ei defnyddio i lywio'r sesiynau tystiolaeth gyda chynrychiolwyr o addysg uwch ac addysg bellach. a drefnwyd ar gyfer 11 Mawrth 2021.